Amgueddfa'r Môr PORTHMADOG Maritime Museum

News Letter - Cylchlythyr

GAEAF 2019 - 2020 WINTER



Blwyddyn dda arall yn yr amgueddfa. Rydym yn parhau i fod yn lle i ymweld ar gyfer pobl leol ac mewn cyfuniad â thwristiaid o bob cwr o'r byd sy'n mynd am reid ar y Rheilffordd Ffestiniog ac Ucheldir Cymru neu'n cerdded Llwybr Arfordir Cymru.

Mae cysylltiad Porthmadog â'r diwydiant llechi, wrth gwrs, yn bwysig iawn ac mae sefydlu Llwybr Llechi Eryri a'r cais am y diwydiant llechi fel Safle Treftadaeth y Byd yn siŵr o ddenu mwy o ymwelwyr.

Another good year at the museum. We continue to be a place to visit, for local people and in combination with tourists from all over the world who are taking a ride on the Ffestiniog and Welsh Highland Railway or walking the Wales Coastal Path.

Porthmadog's link with the slate industry, is of course, very important and the establishment of the Snowdonia Slate Trail and the application for the slate industry as a World Heritage Site will surely attract more visitors.

Seremoni Wobrwyo

Ddydd Gwener 27 Medi, ymgasglodd gwesteion a gwirfoddolwyr yn yr Amgueddfa'r Môr i gyflwyno gwobr fawreddog y Frenhines am Wasanaeth Gwirfoddol (QAVS). Mynychodd llawer o westeion o fri. Cyflwynwyd y tlws crisial i gadeirydd yr amgueddfa, Dr John Jones-Morris, gan Arglwydd Raglaw Gwynedd, Edmund Seymour Bailey a derbyniwyd y dystysgrif gan Moragh Bradshaw, y gwirfoddolwr benywaidd a wasanaethodd hiraf.

Award Ceremony

On Friday 27th September, guests and volunteers gathered at the Maritime Museum for the presentation of the prestigious Queens Award for Voluntary Service (QAVS). Many distinguished guests attended.
The crystal trophy was presented to the museum's chairman, Dr John Jones- Morris, by the Lord Lieutenant of Gwynedd, Edmund Seymour Bailey and the certificate was received by Moragh Bradshaw, the longest serving lady volunteer.





Diolch Terry Mills am y ffotograffau / Thanks to Terry Mills for the photographs

Prosiect Llongau-U

Mae'r arddangosfa Prosiect Llongau-U 1914-18 mewn cydweithrediad rhwng Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru, Prifysgol Bangor a'r Gymdeithas Archaeoleg Forwrol i goffáu'r rhai a wasanaethodd ar y môr yn ystod y Rhyfel Mawr bellach wedi dod i ben.

Gellir gweld delweddau a disgrifiadau o wahanol eitemau a dderbyniwyd yn ystod y prosiect hwn ar wefan "Casgliad y Werin" y Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth.

https://www.casgliadywerin.cymru/user/31286/author/31286/sort/date

U-Boat Project

The U-Boat Project 1914-18 in collaboration between the Royal Commission on the Ancient and Historical Monuments of Wales, Bangor University and the Nautical Archaeology Society to commemorate those who served at sea during the Great War has now come to an end.
Images and descriptions of various items received during this project can be viewed on the "People's Collection of Wales" website at the National Library at Aberystwyth.

https://www.peoplescollection.wales/user/31286/author/31286/sort/date

Casgliad y Werin Cymru
People's Collection Wales

Bydd y rhan fwyaf o arteffactau'r prosiect hwn yn parhau i gael eu harddangos a hefyd rhai o'r paneli. Y bwriad yw ymestyn yr arddangosfa i gynnwys yr Ail Ryfel Byd.

Most of the artefacts from this project will remain on display at the museum as will some of the panels. It is intended to extend the display to include World War Two

Amrywiaeth - Miscellany

Boddiad yng Nghricieth 1838

Allan o'r llyfr "Y Gestiana" gan Alltud Eifion

" Ar Ddydd Gwener, Hydref 19eg 1838, tri o gabdeiniaid llestri, John Watkins or *Blue Vein*; William Williams o'r *Eifion* a Richard Jones o'r *Linnet*, a aethant gyda'u gilydd mewn cwch bychan o Gricieth ar y bwriad o fyned i Borthmadog a rhyw gyfreidiau i'r ddwy lestr flaenaf. Pan oeddant ar y Bar, tarwodd y cwch gan don drwm, ac fel y mae yn syn dyweyd, boddwyd y tri yn y fan !! Watkins a adawodd weddw a chwech o blant ieuanc i alaru eu colled; yr oedd Williams yn briod ond heb blant, a Jones ydoedd sengl "

Drowning in Criccieth 1838

This extract from the book "Y Gestiana" by Alltud Eifion describes the tragic drowning of three captains on the Bar on Friday 19th October 1838. They were John Watkins of the *Blue Vein*, William Williams of the *Eifion* and Richard Jones of the *Linnet* who were rowing from Criccieth in small boat to join their ships. While crossing the Bar the boat was hit by a heavy wave and overturned and the three drowned. Watkins left a widow and six little children to mourn their loss, Williams was married but had no children and Jones was single.

Y tri fu'n gweini'r un gwaith –tri morwyr,
Trwm arwyl i Gricciaeth;
Y tri fu'n diweddu'r daith
Trwy'r anial, tri ar unwaith !

Robert ap Gwilym Ddu

Baner ac Amserau Cymru 10fed Ebrill 1907

BORTH-Y-GEST.

Os ydyw adeiladu llongau wedi darfod yma, y mae Mr. Robert Ellis yn brysur yn gwneyd pleser-fadau i bobl yn Aberdyfi, Aberystwyth, a lleoedd eraill.

Article – "As shipbuilding has ceased here, Mr Robert Ellis is busy constructing pleasure boats for people in Aberdyfi, Aberystwyth and other places".

Cambrian News 20th March 1874

PORTMADOC

THE SLATE TRADE.—This trade is now in a flourishing condition, as will be seen on reference to the number of ships sailing hence every week. The harbour is full of ships loading. It is probable that the demand for slates this year will be greatly in excess of the supply. There is much building going on, but for all that there are not nearly enough houses for the demand for them.

Caernarvon & Denbigh Herald 10 Sept. 1897

PORTMADOC

ARRIVED.—Excelsior, Captain Hughes, from Dublin; Florrie, Jenkins, Fishguard; Desdemona, Evans, Silloth; Patra, Ellis, Londonderry; Charles, Nicholas, Dublin; Rebecca s.s., Roberts, Liverpool; New Design, Hall, Dublin; Ellen Beatrice, Jones, Pwllheli; Rheidol Vale, Humphreys, do.; William Keith, Jones, Dublin; Miss Pritchard, Jones, do.

SAILED.—James, Captain James, for Cardiff; Brothers, Evans, do.; Maid of Meirion, Roberts, Poole; Excel, Morris, Poole; Ebenezer, Ellis, Copenhagen; Catherine, Williams, Colchester and London; Mouse, Williams Cardiff; Herbert, Thomas, Jersey and Dunkirk; Energy, Tiffin, London; Sir Joseph, Wheldon, Newhaven; Lady Neave, Williams, Faversham; Rebecca s.s., Roberts, Liverpool; Seven Brothers, Roberts, Sunderland; Cordelia, Davies, Hamburg; Picton, Hansen, Bremen; Ann and Jane Prichard, Roberts, Copenhagen; Ann Jane, Williams, do.

Llyfrgell Genedlaethol Cymru – National Library of Wales

Local School and Children's groups can visit the museum free of charge!
We have some play activities and hands-on educational exhibits.

Gall Ysgolion a grwpiau plant lleol ymweld â'r amgueddfa yn rhad ac am ddim! Mae gennym rai gweithgareddau chwarae a arddangosion ymarferol addysgol.

Cysylltwch a'r ysgrifennydd i drefnu ymweliad
Contact the secretary to arrange a visit

Robert Dafydd Cadwalader
https://portmm.org/
contact@portmm.org

Visit us on Facebook
https://www.facebook.com/AmgueddfaPort/

Addysg a Rhyngweithiol
Education and Interactive








Yr "Lady Agnes" y llong cargo hwylio olaf yn Porthmadog

Cafodd ei hadeiladu mewn cildraeth bach o'r enw Saint Agnes yng Nghernyw ym 1877. Yn ei dyddiau cynnar, bu'n gweithredu yn y fasnach Newfoundland. Tua 1904 prynwyd hi gan y Capten John Williams, o Idea House, Borth y Gest, ac arhosodd yn ei feddiant nes iddo ei gwerthu i Mr Couch, brocer llongau, o Saint Austell, Cernyw, ym 1917. Dychwelodd yn ôl i Borthmadog ym 1933, prynwyd gan y Gapten Albert Bernson. Trafodiad olaf yn ei hanes hi oedd i feddiant Mr White, o Lundain, ym 1940. Hi oedd y llong hwylio olaf a oedd ar ôl yn y porthladd. Pydrodd yr LADY AGNES ger gorsaf y FR yn ystod yr ail ryfel a chafodd ei gondemnio. Mae ei chofnod yng nghofrestr llongau Caernarfon ar gyfer 31ain Rhagfyr 1945 yn nodi'n llwm "ar gau". Cafodd ei thorri i fyny dros yr ychydig flynyddoedd nesaf. Yn 2001 darganfuwyd ei phen delw yng Nghanada ac fe'i prynwyd gan amgueddfa St Agnes lle mae i'w weld.http: //www.stagnesmuseum.org.uk/



The "Lady Agnes" the last sailing cargo ship at Porthmadog



Built in a little cove known as Saint Agnes in Cornwall in 1877, in her younger days, she operated on the Newfoundland run. About 1904 she was bought by Captain John Williams, of Idea House, Borth y Gest, and remained in his possession until he disposed of her to Mr Couch, ship broker, of Saint Austell, Cornwall, in 1917. She retraced her course to Porthmadog in 1933, bought Capt. Albert Bernson. The final transaction in her history left her in possession of Mr White, of London, in 1940. She was the last remaining sailing vessel in the port. The LADY AGNES, rotted away near the FR terminal during the second war and was condemned. Her entry in the Caernarfon ship register for 31st December 1945 baldly states "closed". She was broken up over the next couple of years. In 2001 her figurehead was discovered in Canada and was purchased by the St Agnes museum where it is on display.http://www.stagnesmuseum.org.uk



Gadael Porthmadog yn y 1930gau wedi ei ail-rigio fel "ketch"
Leaving Porthmadog in the 1930s re-rigged as a ketch



CYSYLLTWCH â Meryl Pugh ar ffôn symudol 07711 772000 neu anfonwch hi neges - PRIS £27.00
CONTACT Meryl Pugh on Mobile 07711 772000 or send her a message - PRICE £27.00 .

Amgueddfa'r Môr
PORTHMADOG
Maritime Museum



Rydym ar agor Pasg i'r Hanner Tymor Hydref -
Ar gau yn ystod y Gaeaf

Pob Dydd 12 - 4 Every Day

We are open from Easter to Autumn Half Term -
Closed during the Winter